

Polisi Amddiffyn Plant Ysgol Dyffryn Nantlle 14/15

'Gwneud y pethau sylfaenol yn dda sydd yn cadw plant yn ddiogel.'

Cydgysylltwyr Penodedig Diogelu Plant yn yr ysgol: **Mr Gwern ap Rhisiart**

Dirprwy Gydgyssylltwr Diogelu Plant: **Mr Huw Evans**

Llywodraethwr Dynodedig dros Ddiogelu Plant: **Mr Glyn Owen**

Y Swyddog Penodedig Dros Ddiogelu Plant Gyda Chyngor Gwynedd: **Mr Rob Jewell (01286 679007)**

Rhagarweiniad

1.1 Mae Ysgol Dyffyn Nantlle yn cydnabod yn llawn ei chyfraniad at ddiogelu plant.

Mae tair prif elfen i'n polisi:-

- A. Rhwystro niwed i blant trwy'r addysgu a chynhaliaeth fugeiliol a gynigir i bob disgybl;
- B. Gweithdrefnau i adnabod ac adrodd am achosion, neu lle ceir rheswm i amau fod camdriniaeth wedi digwydd;
- C. Cynhaliaeth i ddisgyblion sydd o bosib wedi cael eu cam-drin neu sydd mewn perygl o gael eu camdrin.

1.2 Mae'r polisi'n berthnasol i holl staff a gwirfoddolwyr yr ysgol gan gynnwys aelodau'r corff Llywodraethol.

A. Rhwystro

2.1 Mae cael hunan-werth uchel, hyder, ffrindiau da a chyswllt a pherthynas dda gydag oedolion dibynadwy yn lleihau'r risg o niwed difrifol i blentyn wrth ei gadw'n ddiogel.

Mae'r ysgol yn sicrhau:

- a) sefydlu a chynnal ethos lle gall blant deimlo'n ddiogel a lle'u hanogir i siarad yn agored gydag unrhyw un o staff yr Ysgol ;
- b) bod disgyblion yn deall bod oedolion yn yr ysgol ar gael i gynnig clust i wrando, cyngor ac arweiniad;
- c) cwricwlwm ABaCh sy'n cynnig gweithgareddau a chyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i ddiogelu'u hunain rhag camdriniaeth;
- ch) cwricwlwm sy'n cynnig arweiniad i blant i ddatblygu sgiliau bywyd sy'n targedu cymryd cyfrifoldeb, a bod yn ddinasyddion cyfrifol.

B. Gweithdrefnau

3.1 Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Plant yn unol â Chanllawiau Diogelu Plant Cymru Gyfan 2008.

3.2 Bydd yr ysgol yn:

- a. sicrhau bod ganddi aelod o'r Uwch Dim Rheoli, sydd wedi ei hyfforddi'n addas ac yn gymwys i gymryd cyfrifoldeb dros Ddiogelu Plant;
- b. sicrhau hyfforddiant a chynhaliaeth briodol i holl staff yr ysgol ar faterion lles a diogelu plant.
- c. sicrhau hyfforddiant briodol i aelodau'r Corff Llywodraethol ;
- ch. sicrhau bod staff yn ymwybodol o bwysigrwydd bod yn wylidwrus am arwyddion o gamdriniaeth a sut i ymateb os bydd plentyn yn gwneud honiad ei fod yn cael ei gam-drin;

- d. sicrhau bod staff yn cofnodi'n fanwl a chywir unrhyw ddatgeliad sy'n cael ei rannu gan blentyn
- dd. sicrhau bod rhieni'n deall y dyletswydd sydd ar yr ysgol a'r staff o ran diogelu plant trwy osod y cyfrifoldebau hynny ym mhrosbectws yr Ysgol, a chodi ymwybyddiaeth o'r rhifau cyswllt ar wefan yr ysgol.

Gellir cyfeirio disgybl at y Gwasanaethau Cymdeithasol naill ai fel Plentyn mewn angen, gyda chaniatâd rhiant neu fel Plentyn mewn risg o Niwed Sylweddol. Mae'n bwysig fod staff, disgyblion a rhieni'n deall NAD OES angen caniatâd rhiant igyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol os bydd plentyn yn gwneud honiad o gamdriniaeth yn erbyn rhiant ac yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol.

- e. datblygu cysylltiadau gyda'r asiantaethau priodol a chydweithio'n llawn mewn ymholiadau diogelu plant.
- f. cadw cofnod am les plant sy'n achosi pryder.
- ff. glynu at y gweithdrefnau fel a welir yng nghylchlythyr canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru 45/2004 Gweithdrefnau Disgyblaethol.

Y Drefn Ricriwtio a Phenodi Staff Mewn Ysgolion

- 4.1. Sicrhau bod y drefn recriwtio ac apwyntio staff yn cydymffurfio gydag Pholisi'r Cyngor am Weithdrefnau'r Adran Gofnodi Troseddau (DBS) a'r Polisi Datgelu.
- 4.2. Apwyntio Llywodraethwr dynodedig gyda chyfrifoldeb dros Ddiogelu Plant fydd yn goruchwyllo gweithdrefnau diogelu'r ysgol.

C. Cynhaliaeth i'r Disgybl Mewn Perygl

- 5.1 Rydym yn cydnabod y gall blentyn sydd mewn perygl o niwed sylweddol, fod yn dioddef yn ofnadwy o'r herwydd.
- 5.2 Mae'n bosib mai bywyd a threfn ysgol yw'r rhan mwyaf diogel, sicr a sefydlog ym mywyd y plentyn.
- 5.3 Gall blentyn sy'n dioddef yn y cartref ymddwyn mewn ffordd sy'n denu sylw, boed hynny trwy ymddygiad heriol neu ymddygiad sy'n wahanol i ymddygiad arferol y plentyn.
- 5.4 Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i gynnal y disgybl trwy:
 - hyrwyddo amyglchedd diogel, cynhaliol a phositif:ac
 - hyrwyddo pob disgybl fel unigolyn sy'n aelod gwerthfawr o gymdeithas yr ysgol.
- 5.5.1 Dilynir Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth yr ysgol sy'n cyfeirio'n benodol at ddisgyblion bregus. Disgwylir bod pob aelod o staff yn dangos agwedd gadarnhaol sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn ond heb niweidio hunan-barch y person ifanc.
 - a) Cydgysylltir gydag asiantaethau eraill sydd yn cefnogi disgyblion bregus gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifainc, y Gwasanaeth Addysg Seicolegol, Gwasanaethau Cynnal Ymddygiad a'r Gwasanaeth Cynhwysiad Mewn Addysg;
 - b) Cedwir cofnodion clir a chryno ac hysbysir y Gwasanaethau Cymdeithasol os oes gofid cyson am blentyn;

Cyfeirio Plentyn sydd angen ei Ddiogelu at y Gwasanaethau Cymdeithasol

- 6.1 Oherwydd natur rhai honiadau, NID YW bob tro'n briodol trafod y mater gyda rhiant, na chael caniatâd rhiant cyn atgyfeirio at dîm cyfeirio'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu.

Cydraddoldeb/ Gwrth-fwlio

7.1 Mae'r polisi cydraddoldeb sy'n cynnwys gweithdrefnau gwrth-fwlio i'w weld mewn dogfen ar wahân ac fe gaiff hwn ei adolygu'n rheolaidd gan y Corff Llywodraethol.

Ymyriad Diogel/ Deffnyddio Grym Rhesymol

8.1 Mae'r polisi ymyriad diogel mewn dogfen ar wahân ac fe gaiff ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethol.

Plant â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig

9.1 Yn ystadegol, plant sydd â phroblemau ymddygiad ac anabledau sydd fwyaf bregus. Mae staff yn wiliadwrus iawn o ofynion lles a diogelu'r disgyblion hynny.

Delio gydag honiad yn derbyn aelod o Staff

10.1 Os bydd yr honiad yn fater o gamdriniaeth gan aelod o staff yr ysgol, dylai'r aelod o staff sydd â chyfrifoldeb ffonio 01758704455 i siarad â'r Tim Derbyn yn y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cael Cyngor ac arweiniad ac hysbysu'r Swyddog Addysg Diogelu'r Awdurdod ar unwaith (01286679007).

Dylid e-bostio'r ffurflen gyfeirio at: cyfeiriadauplant@gwynedd.gov.uk

Gan e-bostio copi i'r Swyddog Penodedig yn AAL Gwynedd: robjewell@gwynedd.gov.uk

COFNODI

NID RÔL Y PENNAETH YW YMCHWILIO'R HONIAID - Er hyn, bydd angen i'r Pennaeth gael cymaint o wybodaeth ag sydd bosib er mwyn darganfod y ffeithiau am yr honiad. Bydd y wybodaeth o ddefnydd wrth ystyried y camau priodol nesaf.

Delio gyda honiad yn erbyn y Pennaeth

11.1 Os ydy'r cyhuddiad yn erbyn y Pennaeth, dylai Cadeirydd y Corff Llywodraethol gael gwybod a chyfrifoldeb y Corff yw rhoi gwybod i'r Swyddog Penodedig Dros Ddiogelu Plant yn yr AAL.

01286679007 robjewell@gwynedd.gov.uk

Os nad yw Swyddog yr AAL ar gael, neu os penderfynir fod angen cyngor pellach, dylid cysylltu gyda'r Tîm Derbyn Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid yw hyn yr un fath â chyfeirio achos at yr awdurdod ond gall helpu'r awdurdod a'r ysgol wrth asesu'r sefyllfa a phenderfynu ar y camau mwyaf priodol.

Os ydy'r honiad yn ymwneud â throedd neu'n ymddangos bod niwed wedi ei wneud i blentyn neu'n debygol o gael ei wneud i blentyn rhaid i'r AAL a'r ysgol gyfeirio'r achos ar unwaith yn unol â gweithdrefnau diogelu plant Cymru Gyfan 2008.

Delio gyda honiad yn erbyn aelod o'r Corff Llywodraethol

12.1 Os gwneir honiad yn erbyn aelod o'r Corff Llywodraethol, yna fel yn Rhan 4.3.6 o Weithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan - Honiadau o gamdriniaeth am, neu yn erbyn aelod o staff cymwysiedig neu wirfoddolwr sydd yn ymwneud â phlant neu oedolion bregus (neu sydd yn rheoli/ arolygu/ neu'n dylanwadu arnyn nhw) yna dylid cyfeirio'r achos at y Swyddog Penodedig yr AAL dros Ddiogelu Plant am arweiniad pellach.